

Paratoi ar gyfer y tymor nythu adar

Y mis hwn, canolbwyntiwrch ar baratoi ar gyfer y tymor nythu adar.

1. Dechreuwch drwy lanhau unrhyw offer bwydo adar neu flychod nythu sydd gennych eisoes er mwyn atal haint rhag lledu. Gwagiwch hen nythod ac unrhyw ddeunydd ynddynt, yna defnyddiwch sebon ysgafn i ddiheintio'r blwch. Bydd hyn yn helpu atal haint ac afiechyd yn yr adar fydd yn dewis nythu ynddynt. Sicrhewch bod hyn yn cael ei wneud cyn gynted ag y bo modd.
2. Os nad oes blychau fyny gennych eisoes, ystyriwch osod blychau nythu adar ac ystlumod yn eich gardd. Gallwch brynu blychau o ansawdd da gan lawer o gyflenwyr, neu os ydych yn teimlo'n grefftus, gallwch wneud rhai eich hun gan ddefnyddio'r mesuriadau a geir yma. Gwnewch yn siwr eich bod yn defnyddio pren heb ei drin.
3. Gosodwch y blychau 3-5m uwchlaw'r ddaear, ar waliau tai, siediau neu goed gan osgoi ardaloedd rhy heulog neu rhy wyntog.
4. Wrth fwydo'r adar, osgowch rhoi gnau mwnci o hyn allan am eu bod yn gallu achosi salwch ac hyd yn oed ladd cywion bach.



Planwch goed collddail sy'n ffrwytho ac yn dwyn aeron – mae cymysgedd o rai brodorol ac estron yn gweithio'n dda e.e. Ysgawen, Corswigen, Criafolen, Draenen wen.

Rheoli dolydd

Archebwch hadau ar gyfer eich dŏl flodau wyllt. Gallai hwn fod yn wely bychan neu'n gae cyfan yn dibynu beth sy'n addas i chi! Gallwch archebu hadau wedi eu cymysgu'n barod ar-lein, gan gynnwys gweiriau a blodau gwylltion fel Llygad yr Ych, o wefannau fel Emorsgate Seeds.

Planhigion sy'n blodeuo ym mis Ionawr
Eirlys




Eirlys



Addunedwch i ddefnyddio cynnyrch gwyrdd yn unig yn eich gardd ac osgoi nwyddau all beri niwed i gynefinoedd a rhywogaethau e.e. osgowch ddefnyddio peledi atal gwllithod a defnyddiwch gompost heb fawn ynddo!

Adeiladwch ldwch nythu

Os hoffech chi helpu'r adar yn eich gardd, adeiladwch blwch nythu. Defnyddiwch darn o bren tua 150mm o led a'i dorri i'r meintiau a ddangosir yn y deigram. Gwnewch clawr sy'n agor gan ddefnyddio stribed o ledr neu rwbwr, ermwyn glanhau'r blwch yn yr hydref.



	200mm	250mm	120mm	460mm	200mm	220mm+
150mm	Ochr	Ochr	Gwaelod/llawr	Cefn	Blaen ○	Tô/Clawr

Twll fynedfa: 25mm ar gyfer Titw Las, 28mm ar gyfer Titw Mawr a 32mm ar gyfer Aderyn y Tô.

Torri ar ongl 45°



Palas i frenhines

Yn gynnar yn y Gwanwyn, fel rheol o fis Mawrth ymlaen yn dibynu ar y tywydd, bydd Brenhinesau cacwn yn deffro wedi cysgu'r gaeaf i fwydo ac edrych am lefydd i adeiladu nyth. Maent fel arfer yn defnyddio hen nythod llygod neu nythod llygod y gwair. Gallwch eu helpu drwy adael rhywfaint o Ddant y Llew cynnar yn yr ardd i gynnig ffynhonell bwysig a chynnar o neithdar a thrwy adeiladu nyth cacynen gan ddilyn y cyfarwyddiadau canlynol:

1. Dewch o hyd i fan sych a chysgodol mewn rhan heulog o'r ardd i osod eich nyth. Mae ar fancyn yn ddefnyddol gan fod draeniad da yma ond os nad yw hyn yn bosibl, defnyddiwch wely blodau neu waelod clawdd.
2. Cymerwch botyn blodau clai, sydd tua 20cm o ddyfnder neu fwy a llenwch i'w hanner â deunydd nythu, fel papur shwrwd, gwair sych neu wellt.
3. Cysylltwch ddarn o beipen dyfrio 5cm o hyd (25-30cm o led) i'r twll ar waelod y potyn.
4. Claddwch y potyn ben i waered yn y pridd fel bod y twll draenio yn wynebu fyny a'r fynedfa i'r beipen ddyfrio yn brigo wyneb y pridd.
5. Ychwanegwch ffon 10cm o uchder ger y fynedfa i'r beipen. Bydd hyn yn eich helpu i gofio yn lle y mae a bydd hefyd yn cael ei ddefnyddio gan y gacynen yn hwyrach yn yr haf i ddod o hyd i'r ffordd nôl i'w nyth.



Mae'n adeg da nawr i roi bwyd allan i ddraenogod all fod yn dod allan wedi cysgu'r gaeaf a moch daear all fod yn cael trafferth dod o hyd i fwyd ar ddiwedd y gaeaf. Peidiwch â'u bwydo â bara a llaeth sy'n gallu peri salwch, ond yn lle hynny rhowch gymysgedd o fwyd ci a cheirch allan.



Rheoli dolydd

Ar ddiwrnod sych, paratowch ddarn bach (neu fawr!) o dir ar gyfer dôl flodau gwylt. Mae angen pridd sydd yn isel mewn maeth ar blodau gwylt, felly os gallwch, dechreuwch trwy dynnu'r haen uchaf o bridd. Crafwch y pridd â chribyn ond peidiwch â'i droi oherwydd y gallai hyn ddod â hadau nad sydd eu hangen i'r wyneb.

Planhigion sy'n blodeuo ym mis Chwefror
Cenin Pedr Gwylt (*Narcissus pseudonarcissus* 'obvallaris'),
Briallu, Dant y Llew

Gwyllo mamaliaid

Awgrymiadau arolwg: Edrychwch am olion, arwyddion ac ysgarthion ar lwybrau ac mewn gwair hir e.e. twmpathau gwahaddod neu nythod llygod. Gosodwch camera â rhywfaint o fwyd i weld beth fydd y camera yn ei ddal ar fideo.



Llwynog



Twrch Daear




Draenog



Mochyn Daer



Ystlum



Cwningen



Gwiwer Lwyd

Unrhyw famaliaid eraill:



Creu tomen gompost

Mae tomen gompost yn ffordd wych o gael gwared â'ch gwastraff cegin a gardd, tra'n creu bwyd ar gyfer eich gardd a chartref i fywyd gwylt yr un pryd. Mae anifeiliaid di-asgwrn-cefn fel trychfilod a mwydod yn byw ar y deunydd sy'n pydru, fydd yn eu tro yn Neidr Ddefaid, Draenogod a Llyffantod.

1. Dewiswch lecyn heulog gan y bydd hyn yn helpu'r compost i bydru'n gynt.
2. Prynwch gynhwysydd parod neu gwnewch un allan o ddarnau o bren wedi eu hailgylchu. Ceisiwch sicrhau fod ambell fwllch i'w cael ar ochrau eich bin fydd yn caniatáu i fywyd gwylt fel Neidr Ddefaid i gael mynd a dod. Gwnewch yn siwr fod caead arno fydd yn atal dŵr.
3. Gallwch roi unrhyw beth gwyrdd yn eich tomen gompost – chwyn, crwyn ffrwythau a llysiau, ffa coffi wedi ei falu, papur. Peidiwch â rhoi bwyd wedi ei goginio ynddo am y bydd hwnnw yn denu llygod, na llwch coed neu garthion anifail a fydd yn newid ansawdd y compost.
4. Bydd y compost yn barod pan fydd golwg brown tywyll a phriddlyd arno.



Blodyn y Gwynt

Rheoli Dolydd


Os oes dól flodau gwylt gennych wedi ei sefydlu eisoes yn ei hail flwyddyn neu'n hŷn, efallai y byddai'n syniad ei dorri i ryw 50-100mm o hyd nawr er mwyn atal gweiriau rhag tra-arglwyddiaethu.

Planhigion sy'n blodeuo ym mis Mawrth

Helygen Ddeilgron
Blodyn y Gwynt
Crocs

Nodi coed yn y gwanwyn

Awgrymiadau arolwg: Edrychwch am hen ddail wrth fôn y goeden, archwiliwch y rhisgl ac edrychwch am flagur neu nodweddion eraill fel cynffonau wŷn bach neu gonau.



Collen

Bedwen Arian

Derwen

Gwernen

Draenen Wen

Draenen Ddu

Unrhyw coed eraill:



Creu gardd coed meirw

Mae tomenni coed yn nodwedd dda arall i'w hychwanegu i'ch gardd. Byddan nhw'n creu lloches a bwyd i lawer o rywogaethau gwahanol, gan gynnwys amffibiaid, Draenogod, madfallod a chreaduriaid di-asgwrn-cefn fel chwilod. Bydd ffwng a chen hefyd yn coloneiddio'r pren marw'n gyflym.

1. Casglwch ynghyd ddarnau coed a phrennau o wahanol feintiau, siâp a math o goed.
2. Chwiliwch am lecyn cysgodol yn yr ardd.
3. Rhowch nhw ar ben ei gilydd.

Gallwch fod mor daclus neu mor flêr ag y dymunwch gyhyd â'ch bod yn creu digon o holltau a bylchau i'r bywyd gwyllt gropian iddyn nhw!



Rhowch ddeunyddiau nythu allan i'r adar e.e. plu, gwllân, llinyn, mwsog, blew ci. Osgowch ddeunydd y gallai cywion glymu am eu coesau fel gwllân cotwm neu flew ceffyl hir.

Ffrindiau'r Garddwr

Helpwch eich llyslau i dyfu drwy annog rheolwyr plaon naturiol i ymweld â'ch gardd.


- Mae'r Fuwch goch gwta a larfaod Pryfed Hofran yn helwyr naturiol ar blaon fel llyslau, felly plannwch rai o'r planhigion peillgar iawn fel melyn Mair, cennin syfi a ffenigl.
- Mae Llyffantod, Brogaod a Madfallod Dŵr oll yn bwyta gwllithod. Ychwanegwch bwl i'ch gardd (cyfarwyddiadau yn nhaflen mis Tachwedd) i'w hannog nhw yno.
- Mae Pryfed Tân (math o chwilen mewn gwirionedd) yn bwyta gwllithod a malwod. Gallwch eu helpu drwy greu lloches i'w larfaod rheibus ar ffurf twmpathau coed.
- Mae Draenogod yn fwytafyr mawr ar wllithod a malwod, helpwch nhw i'ch gardd drwy osod tyllau Draenogod mewn ffensys fel y gallant symud yn rhwydd rhwng y gerddi a dylid osgoi peledi gwllithod all wenwyno Draenogod.

Rheoli dolydd

Nawr yw'r adeg i blannu eich dól flodau gwylltion. Mae 5g i bob m2 fel rheol yn ddigon – gwasgarwch nhw ar y ddaear ac yna rholiwch y ddaear neu cerddwch drosto er mwyn sicrhau bod yr hadau yn dod i gysylltiad da gyda'r pridd. Dyfrhewch yn ysgafn. Os yw mewn ardal fechan, gallwch osod brigau bychain drosto i amddiffyn y pridd a'r hadau rhag adar a chathod tan eu bod yn dechrau tyfu.

Planhigion sy'n blodeuo ym mis Ebrill

Clychau'r Gog
Llygad Ebrill
Muscari



Adar mudo yn cyrraedd

Awgrymiadau arolwg: Edrychwch i fyny yn aml! Ymgyfarwyddwch â chân yr adar hyn drwy wrando arnynt ar-lein. Os yw cân yr adar yn newydd i chi, mae'r Siff-Saff yn un da i ddechrau dysgu. Mae'n dechrau yn syml gyda sw'n fel 'siff-saff, siff-saff, siff-saff'!



Siff-Saff



Telor Penddu



Gwennol



Gwennol y Bondo

Unrhyw adar mudo eraill:



Adeiladwch eich palas prydfarth eich hun!

Mae hwn yn weithgaredd gwych i oedolion a phlant! Gall 'Gwestyau Pryfed' fod bob ffurf a siâp. Gallwch fynd am un mawr a defnyddio pren paledi un ar ben y llall fel eich ffrâm, neu gallwch ddefnyddio cynhwysydd bychan fel blwch pren bach neu botel blastg gyda'r pen wedi ei dorri i ffwrdd – mae fyny i chi. Bydd hyn o fudd i bob math o greaduriaid, o wenynd unigol i adain siderog. Does dim dull cywir nac anghywir i greu gwesty pryfed felly ewch ati, byddwch yn greadigol a mwynhewch.

Ceisiwch gynnwys rhai o'r nodweddion canlynol ynddo:

- Bonion planhigion gwag y tu mewn e.e. ffyn bambŵ
- Ffyn a brigau
- Gwellt
- Boncyffion (gyda'r rhisgl amdanynt) gyda thyllau o feintiau gwahanol wedi eu drilio i'r pennau. Gwnewch yn saff eu bod i gyd dros 90mm o ddyfnder
- Cardfwrdd crychlyd wedi ei rollo i gynhwysydd sy'n cadw dŵr draw
- Tywod
- Brics a cherrig (cyfan ac wedi malu)

Gallwch greu gwesty moethus drwy adael lle gwag i Ddraenogod a Brogaod ar waelod eich gwesty prydfarth a thrwy ychwanegu tô gwyrdd uwch ben – orchuddio'r top â deunydd sach neu debyg, gyda rhywfaint o dyllau yn yr ochr ar gyfer draenio dŵr na fydd yn gollwng i'r gwesty, rhwch gompost drosto ac yna ei hadu â chymysgedd o flodau gwylltion.



Mae cywion yn debygol o fod mewn nythod am y fisoedd nesaf, felly gadewch gloddiau a choed heb eu torri i roi mwy o amddiffynfa iddynt.



Planhigion sy'n blodeuo ym mis Mai

Troed Yr Iâr
Y Goesgoch
Ytbys Y Ddôl



Lacewing

Hela ymlusgiaid

Awgrymiadau arolwg: Chwiliwch byllau gyda'r nos â fflachlamp gry i weld Madfallod Dŵr, Brogaod a Llyffantod yn caru a dodwy wyau. Rhwch ddarnau o fetal neu fatiau rwbwr allan mewn gwair hir ac edrychwch arnynt – ac oddi tanynt ar foreau cynnes i weld os oes ymlusgiaid yno.



Broga



Llyffant Dafadennog



Neidr Ddefaid



Madfall



Neidr y Gwair



Madfall Ddŵr Gribog



Madfall Ddŵr Gyffredin

Unrhyw ymlusgiaid eraill:



Plannu caffï neithdar

Bydd yr ardd yn dod yn fyw nawr gyda gwenyn, ieir fach yr haf a chreaduriaid di-asgwrn-cefn eraill sy'n hoff o neithdar, y gallwch chi eu helpu drwy greu caffï neithdar.

1. Dewiswch lecyn heulog, cysgodol yn yr ardd a marciwch wely blodau yn y ddaear.
2. Tynnwch y tyweirch oddi yno a throwch y pridd yn barod ar gyfer plannu.
3. Planwch amrywiaeth o blanhigion i geisio sicrhau fod y neithdar ar gael o'r gwanwyn drwodd i'r hydref. Mae awgrymiadau ar gael ar bob tudalen o'r canllaw hwn.
4. Dewiswch amrywiaethau brodorol dros blanhigion a gafodd eu meithrin na fydd yn debygol o gynhyrchu cymaint o neithdar.
5. Ychwanegwch blanhigion dringo sydd hefyd yn cynhyrchu aeron ac egroes fel atynfa ychwanegol e.e. Gwyddfïd, Rhosod Gwylltion, Iorwg a Gwinwydd Duon.
6. Denwch wyfynnod yn y nos gyda phlanhigion sawrus megis Melyn yr Hwyr a Siriol Pêr y Nos.



Creu llety i'r llyffant

Un peth hawdd ei wneud ar gyfer bywyd gwyllt y mis hwn yw creu man y gall Llyffantod a Brogaod gysgodi rhag gwres yr haul a ysglyfaethwyr.

Mewn man glaswelltog, yn agos i bwl os oes un gennyh, cloddiwch siambr ryw 3-4cm o ddyfnder gyda mynedfa ar oledf. Gorchuddiwch hwn â charreg balmant i greu'r guddfan berffaith.

Fel arall, gwnewch dwll yn ochr potyn blodau pridd. Gosodwch hwn mewn man glaswelltog.



Planhigion sy'n blodeuo ym mis Mehefin

Bysedd Y Cŵn
Blodyn Neidr
Cribell Felen
Gwyddfïd



Cacynen a gwenyn eraill

Awgrymiadau arolwg: Planwch gaffï neithdar fel y disgrifiwyd uchod a chewch weld beth ddaw heibio!



Cacynen Gyffredin

Cacynen Dingoch

Cardwenyn Gyffredin

Bombus hypnorum

Anthophora plumipes

Gwenynen Fêl

Adrena fulva

Unrhyw gwenyn eraill:



Creu cartref i fadfall y dŵr

Mae pentwr cerrig yn ychwanegiad gwych i'ch gardd ar gyfer bywyd gwyllt, yn enwedig os yw'n agos i pwll yn yr ardd. Bydd amffibiaid fel Madfallod Dŵr Cribog a Llyffantod yn cropian i'r craciau rhwng y cerrig i gael lloches a man i dreulio'r gaef, a byddant yn cael eu defnyddio hefyd gan fyrdd o greaduriaid di-asgwrn-cefn.

Mae creu pentwr cerrig yn hawdd dros ben. Dilynwch y camau isod:

1. Dewiswch safle i'ch pentwr cerrig. Mae gerllaw pwll yn ddelfrydol am na fydd yn rhaid i fadfallod y dŵr ac amffibiaid eraill fynd ymhell i gael lloches. Byddai hyd yn oed yn well os yw mewn gwair hir am y bydd hyn hefyd yn rhoi bwyd a llwybr diogel iddynt rhwng y pwll a'r lloches.
2. Chwiliwch am gerrig addas. Gallai hwn fod yn wastraff o safle adeiladu gerllaw – dyw madfallod dŵr ddim yn ffyslyd! Ond os ydych yn dymuno iddo edrych yn fwy dymunol, gallwch gael gafael ar gerrig addurniadol.
3. Rhowch y cerrig ar ben ei gilydd mewn twmpath unrhyw fodd y dymunwch ond sicrhewch bod bylchau rhwng y cerrig ac oddi tanynt i'r madfallod allu cropian iddynt. Dyw madfallod y dŵr ddim yn debygol o ddringo felly byddai'n well i'r pentwr fod yn llydan yn hytrach nag yn uchel.

Os oes awydd her arnoch, gallech droi'r pentwr cerrig yma yn wal gerrig sych. I gael gwybod mwy, cysylltwch â'ch Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt lleol.



Yn ystod tywydd twym gwnewch yn siwr fod dŵr ar gael yn y bath adar. Caiff ei ddefnyddio gan anifeiliaid di-asgwrn-cefn a mamaliaid yn ogystal ag adar.

Os nad oes bath adar gennych, rhowch blât o ddŵr allan wedi ei godi ychydig ar fricsen neu ar fwrdd.



Llygad Llo Mawr

Rheoli dolydd


I helpu'r blodau i ymsefydlu'n dda yn eich dŵl, rhowch doriad iddo nawr yn ei blwyddyn gyntaf i atal y gwair rhag bod yn drech. Gwnewch yn siwr eich bod yn clirio'r toriadau. Tynnwch chwyn fel dail tafol. Bydd dŵl flynyddol ddim fel rheol yn blodeuo yn ei blwyddyn gyntaf.

Planhigion sy'n blodeuo ym mis Gorffennaf

Llygad Llo Mawr
Cennin Pennawd-Rownd
Cribau'r Pannwr Gwyllt
Melyn Yr Hwyr



Madfall Ddŵr Gyffredin



Nodi gweision y neidr

Awgrymiadau arolwg: Chwiliwch am weision y neidr a mursennod o amgylch pyllau, llynoedd ac afonydd ar ddyddiau cynnes, heulog yn ystod misoedd yr haf – gall pâr o sbiendrychau all ffocysu'n agos fod yn ddefnyddiol dros ben.



Mursen Las Gyffredin

Mursen Gynffon Las

Mursen Fawr Goch

Gwas Neidr Llachar

Yr Ymerawdwr

Picellwr Boliog

Picellwr Cyffredin

Unrhyw gweision y neidr eraill:

Picellwr Boliog: Mark Robinson




Gosod blychau ystlumod

Gwnewch gartref i ystlumod yn eich gardd a gosodwch flychau ystlumod ar goed mawr neu adeiladau. Byddwch yn ymwybodol bod ystlumod wedi eu hamddiffyn felly dylech osgoi coed ac adeiladau y dymunwch wneud rhywfaint o waith arnyh nhw yn y dyfodol os yn bosib.

1. Gallwch brynu blychau o ansawdd da gan lawer o gyflenwyr, neu os ydych yn teimlo'n greffus gallwch wneud eich rhai eich hun gan ddefnyddio'r mesuriadau a geir yma. Gwnewch yn siwr eich bod yn defnyddio pren heb ei drŷn ag iddo wead bras i roi rhywbeth i'r ystlumod gydio ynddo.

2. Gosodwch y blychau 3-5m uwch law'r ddaear, ar goed neu dai, mewn ychydig o heulwen gan osgoi'r prif wyntoedd. Mae sicrhau llwybr hedfan clir yn syniad da i ystlumod.

Pediwch â phoeni os na chaiff eich blwch ystlumod ei ddefnyddio'n syth, mae ystlumod yn ddevisol iawn a byddant yn symud o gwmpas yn ôl yr adeg o'r flwyddyn.



Rheoli dolydd

Os yw eich dôl flodau gwyllt nawr yn ei hail flwyddyn neu'n hŷn, bydd angen toriad ym mis Awst neu Fedi. Torwch hi'n uchder byr (rhwng 5-10cm), yna gadewch y toriadau yno am ddiwrnod neu ddau i adael i'r hadau syrthio i'r pridd. Mae wedyn yn hanfodol bod yr holl doriadau yn cael eu codi i atal maethion rhag cronni yn y pridd. Gallwch gompostio'r rhain wedyn.

Planhigion sy'n blodeuo ym mis Awst

Tafod Y Fwch
Tamaid Y Cythraul
Ffenigl
Plucen Felen



Gosod casgen ddŵr

Mae casgenni dŵr yn cael eu defnyddio i storio dŵr o doeau adeiladau yn dilyn glaw. Maent yn lleihau faint o ddŵr sy'n mynd i'r system ddŵr yn ystod stormydd, sy'n lleihau'r gwasgedd ar ein hafonydd lleol. Maent hefyd yn rhoi cyflenwad am ddim o ddŵr i'r ardd. Beth am osod un ar eich tŷ neu sied?

Os carech chi geisio gwneud rhywbeth ychydig yn fwy heriol, beth am greu gardd law o'r biben ddraen yn hytrach na chasgen ddŵr? Cysylltwch â'ch Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt am fwy o wybodaeth.

Gwyllo ieir fach yr haf

Awgrymiadau arolwg: Planwch blanhigion sy'n llawn neithdar yn eich gardd ac arhoswch i weld beth ddaw draw am dro.



Unrhyw glöynnod byw eraill:



Adeiladu gaeafod i ymlusgiaid

Nawr bod y tywydd yn llai cynnes, mae'n adeg dechrau meddwl ynghylch sut y gallech helpu bywyd gwylt i oroesi'r gaeaf. Mae yna fath arbennig o wely pridd uchel y gallwch ei adeiladu fydd hefyd yn creu safleoedd gaeafu i fywyd gwylt, sef 'Huglekultur'. Mae'n cynnig lloches i fywyd gwylt tra'n cynnig pridd cyfoethog i'ch planhigion. I greu eich un eich hun, dilynwch y camau canlynol:

1. Dechreuwch drwy ddewis ardal sych, yn ddelfrydol lle bydd gan y gwely pridd wair hir neu dyfiant arall o'i amgylch.
2. Marciwch ardal 1m x 2m (neu'n fwy os dymunwch!), gyda'r ochr hir yn wynebu'r de.
3. Tynnwch y tyweirch oddi ar yr ardal yma a'i osod i'r naill ochr, wedyn cloddiwch ffos 20cm o ddyfnder.
4. Llanwch y ffos yn flêr â boncyffian, gan ffurfio bancyn ryw 1 m o uchder. Bydd hwn yn creu siambrau islaw lefel y rhew lle gall ymlusgiaid, amffibiaid a rhywgaethau eraill dreulio'r gaeaf.
5. Gorchuddiwch y twmpath yma â changhennau llai a brigau.
6. Rhowch y tyweirch nôl ar ei ben gyda'r gwair am i lawr a gorchuddiwch y cyfan â'r pridd gloddiwyd o'r ffos ac ychydig mwy os bydd ei angen.
7. Gallwch wedyn blannu llysiau a blodau gwylt ar ben y twmpath. Bydd y blodau gwylt yn denu'r peillwyr at eich llysiau a bydd yr ymlusgiaid a'r amffibiaid yn y gwely yn cadw golwg ar eich plaon!



Goldfinch

Wrth glirio gwelyau blodau, cadwch bennau blodau hadog fel Llysiau'r Dryw, Llysiau'r Pannwr a Blodau'r Haul ar gyfer adar fel y llinosod i fwyo arnynt dros y gaeaf.

Mae blodau yn debygol o fod yn llai niferus bellach, felly bwydych ieir fach yr haf a phryfed eraill drwy gymysgu siwgr a dŵr poeth ac arllwys hwn i gaeadau poteli laeth.

Planhigion sy'n blodeuo ym mis Medi
Y Feddyges Las
Grug
Meillionen Goch



Broga



Olion ac arwyddion

Awgrymiadau arolwg: Edrychwch am olion pawennau mewn mwd gwlyb, blew ar waelod ffensys a drain, a baw anifeiliaid ar hyd ffiniau tiroedd. Gall cnau cyll ar agor dan goeden gyll ddangos i chi fod mamaliaid bychain gerllaw. Gellir adnabod Draenogod drwy osod bwyd yng nghanol twnnel, ar ddarn mawr o bapur ar ôl pad o inc er mwyn casglu olion pawennau.



Olion Pawennau Llwynog



Olion Pawennau Mochyn Daear



Olion Pawennau Draenog



Cnau

Nyth Llygoden yr ŷd

Unrhyw olion ac arwyddion eraill:



Helpu draenog sy'n gaeafu

Mae niferoedd draenogod dros y DU yn lleihau yn sgil colli cynefinoedd, ffyrdd prysur a rhwystrau sy'n atal symud o gwmpas. Dyw gerddi cymen a thaclus ddim yn cynnig llawer o gyfleoedd i Ddraenogod i greu nyth a gaeafu, felly gallwch helpu drwy adeiladu Blwch Draenog iddyn nhw. Gall hwn fod mor syml neu mor ffansiol ag y dymunwch, gyhyd â'i fod yn sych a bod awyr iach yn gallu mynd iddo.

1. Adeiladwch neu dowch o hyd i focs pren tua 30 x 40 x 30cm o uchder o ran mesuriadau.
2. Adeiladwch fynedfa dwnel neu dwll yn ochr y blwch yr un maint â chlwr CD (13cm x 13cm).
3. Gorchuddiwch lawr y blwch â blawd llif neu bridd.
4. Gorchuddiwch y blwch â deunydd plastig i'w gadw'n sych a gosodwch hwn mewn tomen o ddaill neu foncyffion gerllaw tomen gompost neu gornel gysgodol o'r ardd sy'n tyfu'n wyllt.
5. Gadewch rhywfaint o ddeunydd y tu allan er mwyn i'r draenog allu ei gario i'r blwch megis dail neu wellt.

Mae Draenogod angen teithio cryn belter i ddod o hyd i fwyd, dŵr a chymar. Gallwch eu helpu drwy greu coridorau rhwng eich gardd chi a gerddi eich cymdogion. Torwch dwll yn eich ffens, yr un maint â chlwr CD (13cm x 13cm). Bydd hyn yn galluogi Draenogod i fynd a dod fel y mynnont.



Gadewch Eiddew aeddfed heb ei dorri os yn bosib, gan fod hwn yn ffynhonnell hwyr gwych o neithdar i bryfetach.




Planhigion sy'n blodeuo ym mis Hydref

Eiddew Neu Iorwg
Verbena Rigida
Gogoniant Yr Hydref



Gogoniant Yr Hydref




Fforio ffwng

Awgrymiadau arolwg: Yr adeg gorau i fynd allan i chwilio am ffwng yw ar ôl iddi fwrw glaw yn yr hydref. Edrychwch am ffwng ar bren marw, coed byw, yn eich lawnt ac mewn priddoedd.



Amanita'r Gwybed



Capiau Cwyr



Ffwng Clust



Terana caerulea



Scarcoscypha coccinea



Ysgwydd Amryliw

Unrhyw ffwng eraill:



Cloddio pwll bywyd gwylt

Creu pwll i fywyd gwylt yw'r peth gorau y gallwch ei wneud dros bywyd gwylt yn eich gardd. Mae'n cynnig lle i amffibiaid fagu a chartref i nifer o anifeiliaid di-asgwrn-cefn, sydd yn eu tro yn annog bywyd gwylt arall fel ystlumod ac adar. Mae hefyd yn fendithiol i'ch gardd, gan fod Brogaod, Llyffantod a Madfallod dŵr oll yn bwyta gwllithod! Er mwyn creu un eich hun, dilynwch y camau isod:

1. Dewiswch lecyn heulog a gwastad, i ffwrdd o ormod o gysgod. Bydd hyn yn rhoi'r amgylchiadau gorau i fywyd gwylt yn y pwll a chaniatáu planhigion hanfodol sy'n ocsigeneiddio i dyfu.
 2. Dewiswch faint a siap eich pwll. Mae ymylon afreolaidd yn well am ei fod yn creu nifer o gynefinoedd meicro gydag ardaloedd o ddyfnder, cysgod a thymheredd amrywiol. Y peth pwysicaf ynghylch pwll bywyd gwylt yw bod dyfnderoedd gwahanol, gyda digon o ddŵr bâs a'r ochrau yn mynd mewn yn raddol i'r pwynt dyfnaf. Os yw gofod yn brin, gallwch greu pwll ag un ochr yn unig ar oledf. Mae llecyn dyfnach dros 60cm yn berffaith ar gyfer rhywogaethau fydd yno dros y gaeaf.
 3. O'r cynllun hwn, dewiswch faint o leinin fydd ei angen. Rydym yn argymhell rwber butyl am ei fod yn rhad, hawdd eu ddefnyddio ac yn gwneud jobyn da. I weithio allan faint fydd ei angen arnoch defnyddiwch y fformiwla canlynol:
Lled + (2 x dyfnder mwyaf) x Hyd + (2 x dyfnder mwyaf)
 4. Dechreuwch gloddio! Cloddiwch ffos oddi amgylch ymyl eich pwll fel y gallwch gladdu ymylon y leinin ynddo i roi gorffeniad cymen iddo.
 5. Unwaith i chi gloddio siâp eich pwll, cliriwch unrhyw gerrig miniog a leiniwch y twll â hen bapur newydd, carped neu rywbeth tebyg i amddiffyn y leinin. Dadroliwch y leinin a gadael i'w ymylon dros ben ollwng i'r ffosydd.
 6. Ychwanegwch haenen o dywod fel is-haen i blanhigion ac anifeiliaid.
 7. Gosodwch gerrig a boncyffion o amgylch ymylon eich pwll i greu hafan i ymwelwyr y dyfodol.
 8. Nawr gallwch eistedd yn ôl ac aros iddo lenwi â glaw!
 9. I gefnogi bywyd gwylt cymaint ag y bo modd, planwch blanhigion pwll brodorol yn eich pwll. Mae rhestr awgrymiadol (ond nid cyflawn) yma.
- Os oes unrhyw gwestiynnau gennych, cysylltwch â'ch Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt lleol.



Planhigion brodorol a argymhellir

Callitriche stagnalis – ffafrio gan madfallod ddwr i osod wyau
Iris pseudacorus – yn darparu coesau unionsyth i gwas y neidr a mursennod deor
Myrophyllum spicatum or Potamogeton – planhigion wedi'i foddii ar gyfer ocsigeneiddio
Menyanthes trifoliata – prydferth ac yn creu mat sy'n arnofio ar gyfer gweision neidr sy'n gosod wyau

Planhigion sy'n hanfodol i'w hosgoi

Crassula helmsii
Myrophyllum aquaticum
Azolla filiculoides
Hydrocotyle ranunculoides



Peidiwch ag ychwanegu pysgod i'ch pwll oherwydd y gallant fwytia llawer o anifeiliaid di-asgwrn-cefn sy'n byw mewn pyllau. Dyw ffwntenni ddim i'w hargymhell chwaith gan fod y peirianwaith yn farwol i greaduriaid di-asgwrn-cefn.

Ceisiwch nodi'r adar canlynol

Awgrymiadau arolwg: Rhowch fwyd allan i adar mewn mannau amrywiol e.e. ar fwrdd, yn crogi neu wedi ei daenu i holltau mewn coed a gweld beth ddaw yno i fwynhau'r pryd bwyd.



Titw Tomos Las



Titw Mawr



Ji-Binc



Aderyn Y To



Llwyd Y Gwrych



Aderyn Du




Robin Coch



Plannu clawdd brodorol

Mae plannu cloddiau brodorol yn ffordd wych o rannu gardd, diffinio ffiniau a chuddio nodweddion hyll. Maent yn werthfawr hefyd i fywyd gwyllt gan weithredu fel coridorau i alluogi symud o le i le ac i gynnig bwyd a chysgod. Dilynwch y camau hyn i blannu eich clawdd eich hun:

1. Dewiswch goed cloddiau brodorol sy'n gweddu eich anghenion megis Celynnen, Ywen, Draenen Wen a Choed Cyll. Mae gan y cloddiau gorau sawl rhywogaeth ynddynt felly dewiswch o leiaf bedwar. Dewiswch fath bythwyrdd i gynnig cysgod yn ystod y gaeaf.
2. Palwch y safle, gan dynnu chwyn a gwreiddiau, yna cymysgwch ddigon o dail wedi pydru'n dda i'r pridd er mwyn rhoi'r dechrau gorau posib i'ch coed.
3. I gael clawdd trwchus braf, planwch 5 planhigyn bob metr am yn ail mewn dwy res.
4. Dyfrhewch yn dda.
5. Pan fo'r coed ychydig o flynyddoedd o oed, ystyriwch blannu dringwyr arnynt fel Gwyddfid a bylbiau fel Clychau'r Gog.



Gofalu am Adar yn y Gaeaf

Bwydo

Crogwch fwydwyr adar a rhowch fwyd allan ar y ddaear ac ar fyrddau bwydo adar. Gallwch brynu hadau o ansawdd da gan Vine House Farm (vinehousefarm.co.uk), lle mae cyfran o'r elw yn mynd i'r Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt i gefnogi cadwraeth bywyd gwyllt. Gallwch hefyd osod sgrapiau o'r gegin fel afal, hen gacennau a chaws allan, ond dylech osgoi bara a chneuen goco wedi ei falu, all beri anhwylder ar yr adar.

I wneud eich peli braster eich hun, toddwch rhywfaint o saim (lard neu siwet) i dwbyn. Cymysgwch yr hadau iddo a'i arllwys i botyn iogwrt neu debyg i'w grogi o goeden neu o'r bwrdd bwydo.

Yn olaf, gadewch aeron ar y coed megis coed celyn i roi ffynonellau naturiol o fwyd.

Dŵr

Ychwanegwch bath adar i'ch gardd a sicrhewch bod dŵr ynddo a'i fod yn cael ei gadw'n lân a rhydd o iâ. Gallwch hefyd sicrhau bod dŵr eich pwll yn hawdd i adar gael ato gydag ochrau sydd yn goleddfu'n raddol.

Cysgod

Gwagiwch eich blychau nythu a'u glanhau yn drwyadl er mwyn rhoi lloches i adar y tu mewn iddynt dros y gaeaf.

